



Ein cyf/Our ref: MA/EM/3486/21

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.cymru

Copi at:
Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddLJC@senedd.cymru

3 Rhagfyr 2021

Annwyl Russell a Huw,

Mae'n bleser gennyf rannu fersiwn derfynol o'r Fframwaith dros dro ar gyfer Organau, Meinweoedd a Chelloedd, yn ogystal â Fframwaith ar gyfer Diogelwch ac Ansawdd Gwaed (y Fframweithiau). Hefyd mae dogfennau Concordat perthnasol wedi eu cynnwys.

Mae'r Fframweithiau hyn yn sefydlu disgwyliadau cyffredin mewn perthynas â meysydd allweddol sy'n ymwneud ag ansawdd a safonau diogelwch ar gyfer organau, meinweoedd, celloedd a gwaed yng nghyd-destun ymadawiad y DU â'r UE. Mae pedair gweinyddiaeth y DU wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd i sefydlu dulliau gweithredu cyffredin, sy'n cael eu hadnabod fel Fframweithiau Cyffredin, mewn meysydd polisi a oedd yn cael eu llywodraethu gynt gan gyfraith yr UE, ac sy'n croestorri â meysydd o gymhwysedd datganoledig.

Mae swyddogion yn Llywodraeth Cymru, gyda'u cydweithwyr cyfatebol ar draws y DU a rhanddeiliaid perthnasol yn y meysydd hyn, wedi bod yn gweithio ar y cyd i ddatblygu'r Fframweithiau hyn i'w rhannu â'u Pwyllgorau Craffu perthnasol at ddibenion craffu seneddol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r set o ddogfennau ar gael yn:

[The Organs, Tissues and Cells \(apart from embryos and gametes\) Provisional Common Framework - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

[The Blood Safety and Quality Provisional Common Framework - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services